PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Polisi Masnach Deg

Mae Prifysgol Aberystwyth yn gosod pwyslais mawr ar ein rôl fel sefydliad sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer y byd ehangach. Mae'r Brifysgol yn credu bod deall a rheoli effaith ein gweithredoedd ar eraill a'r amgylchedd yn rhan hanfodol o fod yn Brifysgol foesegol a chymdeithasol gyfrifol. Mae'r Brifysgol felly'n ymrwymo i gefnogi, defnyddio a hyrwyddo Masnach Deg.

Mae'r Sefydliad Masnach Deg wedi gosod pum amcan ar gyfer creu Prifysgol Masnach Deg, ac mae ein hymrwymiad iddynt fel a ganlyn:

i. **Grŵp Llywio**

Bydd Grŵp Llywio Masnach Deg yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor. Ei swyddogaeth fydd monitro a gwella'n barhaus agwedd y Brifysgol tuag at Fasnach Deg. Bydd y grŵp yn cynnwys cynrychiolydd o'r grwpiau canlynol: rheolwyr y Brifysgol, y gwasanaethau arlwyo ac adran weithredol undeb y myfyrwyr. Bydd yn gyfarfod agored, ac fe anogir staff a myfyrwyr i fynychu.

ii. **Gwerthu Cynnyrch Masnach Deg**

Bydd y Brifysgol yn gwerthu te a choffi Masnach Deg yn unig yn ei hallfeydd manwerthu a thrwy ei pheiriannau gwerthu, a bydd yn gwerthu cymaint o gynhyrchion Masnach Deg eraill ag sy'n ymarferol bosibl. Lle nad yw'n ymarferol ar hyn o bryd i werthu rhai cynhyrchion Masnach Deg (am resymau'n ymwneud â phrisiau, argaeledd cynnyrch neu rwymiadau cytundebol), mae'r Brifysgol yn ymroddedig i ddechrau eu gwerthu cyn gynted ag y bo modd.

iii. **Gwasanaethau Croeso**

Bydd y Brifysgol yn ymrwymo i weini te a choffi Masnach Deg ym mhob un o'i chyfarfodydd mewnol, digwyddiadau croeso a chynadleddau, ac yn ymrwymo i gynyddu'r defnydd o fwydydd Masnach Deg pan fo'n bosib.

iv. **Hyrwyddo**

Bydd y Brifysgol yn hyrwyddo gwerthiant cynnyrch Masnach Deg drwy'r dulliau canlynol:

- Gosod deunydd hyrwyddol Masnach Deg ar hysbysfyrddau'r Brifysgol ac mewn lleoedd lle mae cynnyrch Masnach Deg yn cael ei werthu.
- Cyhoeddi erthyglau a deunyddiau eraill priodol am Fasnach Deg yng nghylchlythyrau'r staff a'r myfyrwyr, ar wefan y Brifysgol ac mewn cyhoeddiadau priodol eraill, megis prosbectws y Brifysgol.
- Cynnal cyfres o ddigwyddiadau hyrwyddol yn ystod Pythefnos Masnach Deg bob mis Mawrth. Y grŵp llywio sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiadau hyn ac eraill trwy gydol y flwyddyn. Bydd pob un o'r digwyddiadau'n cael eu hyrwyddo yng nghyhoeddiadau'r Brifysgol.
- Bydd adnoddau a chynlluniau gwersi Masnach Deg ar gael at ddefnydd tiwtoriaid.

v. **Cymorth Staff a Myfyrwyr**

Anogir holl aelodau'r Brifysgol i gefnogi'r polisi Masnach Deg. Bydd manylion y polisi yn cael eu lledaenu ledled y Brifysgol, â phob ymdrech i gefnogi Masnach Deg yn cael ei annog yn gryf.

vi. **Adolygu**

Bydd y datganiad polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

[signature] DIRPRWY IS-GANGHELLOR

26/01/15

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Fairtrade Policy

Aberystwyth University assigns great importance to our role in preparing students for the wider world. The University believes that understanding and managing the impact our actions have on people and on the environment is an essential part of being an ethical and socially responsible University. The University therefore commits to supporting, using and promoting Fairtrade.

The Fairtrade Foundation has outlined five goals for a Fairtrade University and our commitment to them is as follows:

i. **Steering Group**

A Fairtrade Steering Group will meet at least once a term. Its job will be to continuously monitor and improve the University's approach to Fairtrade. The group will include a representative from the following groups: the University management, catering services and the students' union executive. It will be an open meeting where staff and students are encouraged to attend.

ii. **Sale of Fairtrade Products**

The University will only sell Fairtrade tea and coffee in all its retail outlets and vending machines, and will sell as many other Fairtrade products as is feasible. Where it is not currently feasible (for reasons of price, product availability or contractual obligations) to sell certain Fairtrade products the University is committed to begin selling them as soon as it becomes feasible.

iii. **Hospitality**

The University will commit to serving Fairtrade tea and coffee at all internal meetings, hospitality events and conferences, with the commitment to increase the use of Fairtrade foods as it becomes possible to do so.

iv. **Promotion**

The University will promote the sale of Fairtrade products via the following methods:

- Fairtrade promotional materials will be displayed on University notice boards and in places where Fairtrade products are sold.
- Articles and other appropriate material about Fairtrade will be published in the staff and student newsletters, on the University website and in other appropriate publications such as the University prospectus.
- A series of promotional events will be run during Fairtrade Fortnight every March. The steering group is responsible for organising this event and others throughout the year, all of which will be promoted in University publications.
- Fairtrade resources and lesson plans will be available for tutors to use.

v. **Staff and Student Support**

All members of the University will be actively encouraged to support the Fairtrade policy. Details of this policy will be communicated throughout the University and their efforts to support Fairtrade will be strongly encouraged.

vi. **Review**

This policy statement will be reviewed on an annual basis.

Signed: R. [signature] PRO VICE CHANCELLOR

Date : 26/01/15